


# Llywodraethwyr Annibynnol.

Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr
2024

Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

# Croeso gan Gadeirydd y Bwrdd a'r Is-Ganghellor



**Dr Leigh Griffin**
Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr



**Yr Athro Maria Hinfelaar**
Is-Ganghellor

**Diolch yn fawr iawn i chi am eich diddordeb mewn bod yn aelod o Fwrdd Llywodraethwyr Prifysgol Wrecsam.**

Rydym yn awyddus i benodi llywodraethwyr annibynnol newydd ar adeg gyffrous i'r Brifysgol. Bydd aelodau newydd yn atgyfnerthu arbenigedd ac amrywiaeth y Bwrdd, cefnogi ein gwerthoedd craidd, ac yn helpu i lunio a chyflawni ein Gweledigaeth a Strategaeth Prifysgol newydd i 2030.

Mae Prifysgol Glyndŵr Wrecsam yn brifysgol ifanc ac uchelgeisiol a sefydlwyd yn 2008 mewn ymateb i anghenion cymdeithasol ac economaidd y rhanbarth, gan adeiladu ar gysylltiadau cryf â chyflogwyr a ddatblygwyd gan y sefydliadau a'i rhagflaenodd dros y 120 o flynyddoedd blaenorol. Mae prif gampws y Brifysgol yn Wrecsam yng Ngogledd Ddwyrain Cymru, gyda champysau cyfagos yn Llaneurgain a Llanelwy.

Yn ogystal â'n darpariaeth i israddedigion mae gennym ni bresenoldeb arwyddocaol, sy'n tyfu, ym maes addysg trawswladol, yn cynnig ein rhaglenni i fyfyrwyr ledled y byd trwy bartneriaethau masnachfraint a chroesawu myfyrwyr rhyngwladol i'n campysau ni, ac hefyd trwy gyfres o raglenni ôl-raddedig ar-lein.

Mae'r Weledigaeth a Strategaeth yn ymateb i dirwedd newidiol addysg uwch yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig ac mae'n rhoi arweiniad i'r Brifysgol wrth adeiladu ar gyflawniadau'r gorffennol ac ehangu ein partneriaethau, ym myd addysg, ym myd arloesi ac ym maes ymchwil.

Yn ystod y blwynyddoedd diwethaf rydym ni wedi gwneud cynnydd go iawn yn sefydlu'r Brifysgol fel sefydliad angori yn y rhanbarth, gan weithio yn unol â'n Gweledigaeth a Strategaeth 2025 sy'n cynnwys ein gwerthoedd craidd: bod yn hygyrch, cefnogol, arloesol ac uchelgeisiol. Rydym ni hefyd yn weithgar yn ddinesig, gan weithio â phartneriaid a chymunedau ar draws Gogledd Cymru i wneud gwahaniaeth cadarnhaol er budd y cyhoedd.

Rydym ymhlith y 10 uchaf yn y DU am fodlonrwydd Myfyrwyr yn y 'Complete University Guide 2024'. Rydym ymhlith y 10 uchaf am Ansawdd Addysgu yn y 'Sunday Times Good University Guide 2024' ac rydym yn cael ein cydnabod eto fel y Brifysgol orau yng Nghymru a sector AU ehangach y DU am gynhwysiant cymdeithasol, gan helpu myfyrwyr o gefndiroedd amrywiol i gyflawni eu nodau.

Rydym ni wedi ymrwymo i barhau i gryfhau Prifysgol sy'n gynaliadwy ac yn hyfyw yn academaidd i'r rhanbarth a thu hwnt, yn unol â'n cenhadaeth i ysbrydoli a galluogi trwy addysg uwch, ymchwil ac ymgysylltu, gan weithio ar y cyd â'n myfyrwyr, ein staff a'n partneriaid.

Rydym ni'n gweddnewid ein campysau a'n galluedd digidol yn unol â'n cynllun meistr, Campws 2025.

Fel llywodraethwr byddwch yn gweithio â Bwrdd ac uwch dîm rheoli ymroddgar a brwdfrydig, yn ogystal â gweithio gyda staff gwasanaethau academaidd a gwasanaethau proffesiynol a'r myfyrwyr.

Mae'r trosolwg, yr herio adeiladol a'r gefnogaeth a ddarperir gan y Bwrdd yn ein cynorthwyo ni i sichau llwyddiant a chynaliadwyedd y Brifysgol a'i chyfraniad i'r cymunedau mae'n ei gwasanaethu. Diolchwn i chi ymlaen llaw am eich diddordeb mewn bod yn aelod o'r Bwrdd Llywodraethwyr ac edrychwn ymlaen at glywed gennych chi.



# Rôl y Bwrdd Llywodraethwyr

**Mae gan y Bwrdd Llywodraethwyr gyfrifoldeb ar y cyd i benderfynu ar gymeriad addysgol y Brifysgol, i alluogi'r Brifysgol i gyflawni a datblygu ei chenhadaeth a'i phrif amcanion, sef dysgu, addysgu ac ymchwil, sicrhau solfedd y Brifysgol a diogelu ei hasedau.**

Mae rhinweddau allweddol llywodraethwyr yn cynnwys y gallu i gwestiynu'n ddeallus, trafod yn adeildol, herio'n drwyadl a gwrando gyda sensitifrwydd ar farn eraill, yn a thu allan i'r cyfarfodydd.

Y cyfnod swydd i lywodraethwyr ac aelodau cyfetholedig pwyllgorau yw pedair blynedd, gyda'r posibilrwydd o adnewyddu hyn am ail gyfnod o bedair blynedd.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys 20 aelod, hyd at 13 ohonynt wedi'u penodi o'r tu allan i'r brifysgol (annibynnol) ynghyd â'r Is-Ganghellor (Prif Weithredwr) a llywodraethwyr a etholwyd o blith y staff a'r myfyrwyr i'w cynrychioli.

# Ymrwymiad Amser

**Mae'r ymrwymiad amser yn cytafeb i oddeutu 30 – 50 awr y flwyddyn, sy'n cynnwys pum cyfarfod y Bwrdd hanner diwrnod yr un, un digwyddiad strategaeth diwrnod cyfan, nifer fechan o weithdai datblygu fel bo angen, yn ogystal â digwyddiadau cymdeithasol os dymunwch.**

Mae'r Bwrdd yn dirprwyo rhai o'i bwerau i'w bwyllgorau a gofynnir i Lywodraethwyr fod yn aelod o un pwyllgor y Bwrdd o leiaf, gan ystyried yr ymrwymiad amser y gall aelodau ei roi yn bersonol.

**Pwyllgorau'r Bwrdd yw:**

- Y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid,
- Y Pwyllgor Archwilio a Risgiau,
- Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant,
- Y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu,
- Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol,
- Y Pwyllgor Ansawdd a Safonau.

Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd a'i bwyllgorau yn ystod y dydd, ar ddydd Iau a dydd Gwener yn arferol. Cynhelir y cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn Wrecsam, gyda rhai cyfarfodydd ar-lein yn achlysurol ynghyd â'r dewis i lywodraethwyr ymuno â rhai cyfarfodydd o bell pan fyddai bod yn bresennol yn y Brifysgol yn heriol oherwydd ymrwymiadau personol.

Nid oes tâl am gyflawni rôl llywodraethwr annibynnol neu aelod pwyllgor cyfetholedig, ond bydd costau teithio a chostau angenrheidiol eraill a delir wrth gyflawni busnes y brifysgol yn cael eu had-dalu.

# Amrywiaeth y Bwrdd

**Rhaid cael cydbwysedd o wybodaeth, sgiliau a phrofiad ymhith yr aelodaeth ac mae'r Bwrdd yn cydnabod bod amrywiaeth gwybodaeth, sgiliau, cefndiroedd a phrofiadau yn rhan bwysig o'r cydbwysedd hwnnw, os yw'r Bwrdd i gynrychioli y myfyrwyr, y staff a'r cymunedau mae'n eu gwasanaethu.**

Mae'r Bwrdd yn ceisio dileu unrhyw rwystau a allai atal pobl rhag mynegi diddordeb mewn bod yn aelod o'r bwrdd ac mae'n croesawu mynegiant o ddiddordeb gan bobl o bob cefndir i'w hystyried i'w penodi.

Byddwn yn croesawu'n benodol geisiadau gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ar y Bwrdd, yn cynnwys unigolion ag anableddau a'r rhai ag amrediad amrywiol o ethnigrwydd.

# Y Rôl

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Corff Llywodraethu'n gyfrifol am sicrhau rheolaeth effeithiol y Brifysgol a chynllunio ar gyfer ei datblygiad yn y dyfodol. Nodir ei gyfrifoldebau yn Natganiad Prif Gyfrifoldebau'r Bwrdd. Yn bennaf y cyfrifoldebau hyn yw gweithredu fel prif awdurdod busnes ariannol y brifysgol, pennu'r cymeriad addysgol, cenhadaeth a gweledigaeth strategol y Brifysgol, bod yn awdurdod cyfreithiol yn sicrhau fod y Brifysgol yn bodloni ei holl ymrwymiadau cyfreithiol a diogelu profiad y myfyrwyr.

1.2 Mae Cod Llywodraethu Addysg Uwch y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgol yn pwysleisio "fod llywodraethu da yn gofyn am set o berthnasoedd cryf ar sail parch, ymddiriedaeth a gonestrwydd rhwng y Bwrdd Llywodraethwyr, y Clerc, yr Is-Ganghelllor a'r uwch dîm rheoli."

1.3 Mae'n ofynnol i holl aelodau'r Bwrdd Llywodraethwyr, p'un ai'n lywodraethwyr annibynnol (lleyg), staff lywodraethwr neu fyfyriwr lywodraethwr, ddod ag ymddygiadau penodol i'r Bwrdd. Dylent fedru cwestiynu'n ddeallus, trafod yn adeiladol a herio'n drylwyr a gwrando'n sensitif ar farn pobl eraill hefyd.

## 2. Aelodaeth

2.1 Disgwylir i'r aelodau chwarae rhan briodol mewn sicrhau bod busnes angenrheidiol y Bwrdd Llywodraethwyr yn cael ei weithredu yn effeithiol, yn effeithlon, ac mewn modd sy'n briodol ar gyfer cynnal busnes gyhoeddus yn gywir. Disgwylir iddynt wneud cyfraniadau rhesymol ac adeiladol i drafodaethau a sicrhau fod eu gwybodaeth a'u harbenigedd ar gael i'r Bwrdd Llywodraethwyr ar bob cyfle.

2.2 Mae'r aelodau yn gyfrifol am sicrhau bod y Bwrdd Llywodraethwyr yn gweithredu yn unol ag Offerynnau ac Erthyglau Llywodraethu'r Brifysgol a chyda rheolau a rheoliadau mewnol y Brifysgol, a dylent ofyn am gyngor y Clerc os byddant yn ansicr ynglŷn ag unrhyw beth.

2.3 Gofynnir i'r aelodau dderbyn cyfrifoldeb ar y cyd dros y penderfyniadau a wneir gan y Bwrdd Llywodraethwyr. Ni ddylai aelodau a etholwyd, a enwebwyd neu a benodwyd gan etholiadau penodol weithredu fel petaent wedi'u dirprwyo gan y grŵp y maent yn ei gynrychioli, ac ni ddylent gael eu rhwymo mewn unrhyw ffordd gan fandadau a roddwyd iddynt gan eraill.

## 3. Safonau a Chynnal Busnes Cyhoeddus yn briodol

3.1 Ymddiriedir cyrff llywodraethu â chyllid, cyhoeddus a phreifat, a chan hynny mae ganddynt ddyletswydd arbennig i gynnal y safonau uchaf o lywodraethu corfforaethol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau ac arddangos uniondeb a gwrthrychedd wrth weithredu eu busnes, gan ddilyn polisi o fod yn agored ac eglur ble bynnag y bo modd wrth rannu eu penderfyniadau. Mae ffynonellau cyllido mor amrywiol hefyd yn galw ar Brifysgolion i gadw at yr arfer da sy'n briodol i gyrff sectorau cyhoeddus a phreifat.

3.2 Dylai aelodau unigol y Bwrdd Llywodraethwyr a'r Bwrdd Llywodraethwyr ei hun bob amser ymddwyn yn unol â safonau ymddygiad derbyniedig mewn bywyd cyhoeddus, sy'n cwmpasu anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth. Mae'n rhaid i'r aelodau hefyd gydymffurfio â'r gofynion a restrir yng Nghôd Ymddygiad Prifysgol Glyndŵr ar gyfer aelodau'r Bwrdd a darparu gwybodaeth i'r Clerc a/neu'r Cadeirydd a allai fod yn ofynnol er mwyn sicrhau bod gofynion o'r fath yn cael eu bodloni e.e. datgelu buddiannau, curriculum vitae neu wybodaeth bersonol berthnasol.

3.3 Er mwyn cynnal busnes cyhoeddus yn briodol, mae'n hollbwysig i gadeiryddion ac aelodau'r Bwrdd Llywodraethwyr ymddwyn a chael eu gweld yn ymddwyn yn ddiduedd a pheidio a chael eu dylanwadu yn eu rôl fel llywodraethwyr gan berthnasau cymdeithasol neu fusnes. Mae'n rhaid i'r aelodau wneud datganiad llawn ac amserol o fuddiannau personol i'r Clerc yn unol â'r gweithdrefnau a gymeradwyir gan y Corff Llywodraethu. Mae'n rhaid iddynt, cyn gynted ag sy'n ymarferol, ddatgelu unrhyw fuddiannau y gallai fod ganddynt mewn unrhyw fater a drafodir a derbyn dyfarniad y Cadeirydd o ran rheoli'r sefyllfa honno, er mwyn dangos y cynhelir uniondeb busnes y Bwrdd Llywodraethwyr a'i Bwyllgorau.

3.4 Gan mai Elusen yw'r Brifysgol, mae'r aelodau yn gyfrifol am sicrhau bod y Bwrdd Llywodraethwyr yn gwneud defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau'r Brifysgol er mwyn hyrwyddo ei dibenion elusennol, cynnal ei hyfywedd ariannol hirdymor, a diogelu ei hasedau, a bod mecanweithiau cywir yn bodoli er mwyn sicrhau rheolaeth ariannol ac atal twyll.

## 4. Busnes y Brifysgol

**4.1** Mae'r aelodau yn gyfrifol am sicrhau bod y Bwrdd Llywodraethwyr yn rheoli cyfeiriad strategol y Brifysgol, trwy broses gynllunio effeithiol, a bod perfformiad y Brifysgol yn cael ei asesu yn ddigonol yn ôl yr amcanion a gymeradwyir gan y Bwrdd Llywodraethwyr.

**4.2** Cynllunio Strategol: Mae gan y Bwrdd Llywodraethwyr ddyletswydd i alluogi'r Brifysgol i gyflawni a datblygu ei chenhadaeth a'i phrif amcanion o ddysgu ac addysgu ac ymchwil. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cynnwys ystyried a chymeradwyo cynllun strategol y Brifysgol, sy'n rhestru nodau ac amcanion academaidd y Brifysgol ac yn dynodi'r strategaethau ariannol, ffisegol a staffio sy'n angenrheidiol i gyflawni'r amcanion hyn.

**4.3** Monitro Effeithiolrwydd a Pherfformiad: Dylai'r Bwrdd Llywodraethwyr fonitro ei effeithiolrwydd ei hun yn rheolaidd a pherfformiad y Brifysgol yn ôl ei strategaethau cynlluniedig a'i dargedau gweithredol.

**4.4** Cyllid: Mae cyfrifoldebau ariannol y Bwrdd Llywodraethwyr yn cynnwys:

- Sicrhau solfedd y Brifysgol a diogelu ei hasedau
- cymeradwyo'r strategaeth ariannol
- cymeradwyo'r cynlluniau a'r cyllidebau gweithredol blynyddol a ddylai adlewyrchu cynllun strategol y Brifysgol
- sicrhau bod cyllid a ddarperir gan y Cyngor Cyllido yn cael ei ddefnyddio yn unol â'r telerau ac amodau a nodir ym Memorandwm Ariannol y Cyngor Cyllido
- sirchau bodolaeth ac uniondeb rheoli risgiau, systemau rheoli a llywodraethu a monitro'r rhain trwy'r Pwyllgor Archwilio
- derbyn a chymeradwyo'r cyfrifon blynyddol (datganiadau ariannol wedi'u harchwilio).

**4.5** Archwilio: Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr yn gyfrifol am gyfarwyddo a goruchwylio trefniadau archwilio mewol ac archwilio allanol y Brifysgol.

**4.6** Rheoli Ystadau: Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr yn gyfrifol am oruchwylio rheolaeth strategol tir ac adeiladau'r Brifysgol. Fel rhan o'r cyfrifoldeb hwn, dylai ystyried, cymeradwyo ac adolygu strategaeth ystadau sy'n dynodi'r gofynion eiddo a lle sydd eu hangen i gyflawni amcanion cynllun strategol y Brifysgol, yn ogystal â darparu rhaglen gynnal a chadw gynlluniedig.

**4.7** Rheoli Adnoddau Dynol: Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr yn gyfrifol am bolisi adnoddau dynol a chyflogaeth y Brifysgol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod cyflog ac amodau cyflogaeth yn cael eu pennu a'u gweithredu yn gywir ar gyfer pob categori o gyflogai. Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr hefyd yn gyfrifol am benodi a chytunor ar delerau ac amodau'r Is-Ganghellor a swyddi uwch eraill o'r fath a allai gael eu pennu o dro i dro.

4.8 Cydraddoldeb ac Amrywiaeth: Dylai'r Bwrdd Llywodraethwyr sicrhau bod systemau anwahaniaethol yn bodoli i ddarparu cyfle cyfartal a hybu diwylliant sy'n cefnogi cynhwysiad ac amrywiaeth ledled y sefydliad i'r staff a'r myfyrwyr.

4.9 Undeb Myfyrwyr: Dylai'r Bwrdd Llywodraethwyr gymryd unrhyw gamau sydd yn rhesymol ymarferol i sicrhau bod yr undeb myfyrwyr yn gweithredu mewn modd teg a democrataid ac yn atebol am ei gyllid.

4.10 Iechyd a Diogelwch: Y Bwrdd Llywodraethwyr sy'n gyfrifol yn y pen draw am iechyd a diogelwch cyflogeion, myfyrwyr ac unigolion eraill tra'u bod ar dir y Brifysgol ac mewn mannau eraill ble gallent gael eu heffeithio gan weithrediadau'r Brifysgol. Mae dyletswyddau'r Bwrdd Llywodraethwyr yn cynnwys sicrhau bod gan y Brifysgol ddatganiad polisi iechyd a diogelwch ysgrifenedig a threfniadau ar gyfer gweithredu'r polisi hwnnw.

4.11 Dylai'r aelodau ymdrechu i sefydlu perthnasau gwaith adeiladol a chefnogol ond heriol gyda chyflogeion y Brifysgol y dônt i gysylltiad â nhw, ond rhaid iddynt adnabod y gwahaniaeth priodol rhwng llywodraethu a rheolaeth weithredol, ac osgoi ymwneud â rheolaeth weithredol y Brifysgol o ddydd i ddydd. Mae hyn hefyd yn berthnasol i'r staff a'r myfyrwyr sy'n aelodau'r Bwdd Llywodraethwyr, oni bai yn rhinwedd eu cyflogaeth neu yn eu gweithgareddau fel myfyrwyr, y gallant fod â chyfrifoldebau gweithredol yn y Brifysgol.

4.12 Fel arfer, bydd aelodau yn cael eu penodi gan y Bwrdd Llywodraethwyr i o leiaf un o bwyllgorau sefydlog y Bwrdd Llywodraethwyr, a disgwylir iddynt chwarae rhan lawn ym musnes pob pwyllgor y penodir hwy iddynt. Pwyllgorau'r Bwrdd sydd mewn grym yw'r:

- Y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid
- Y Pwyllgor Archwilio a Risg
- Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant
- Y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu
- Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol
- Y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd

## 5. Y Rôl Allanol

5.1 Fe ellir gofyn i'r aelodau gynrychioli'r Bwrdd Llywodraethwyr a'r Brifysgol yn allanol, a byddant yn derbyn cyfarwyddyd llawn gan y Brifysgol er mwyn eu galluogi i gyflawni'r swyddogaeth hon yn effeithiol.

5.2 Fe ellir gofyn i'r aelodau ddefnyddio dylanwad personol a sgiliau rhwydweithio ar ran y Brifysgol (y rôl 'agor drysau').

5.3 Fe ellir gofyn i'r aelodau chwarae rhan mewn cydlynu rhwng rhanddeiliaid allweddol a'r Brifysgol, neu godi arian. Byddant yn derbyn cyfarwyddyd llawn gan y Brifysgol er mwyn eu galluogi i gyflawni'r swyddogaeth hon yn effeithiol. Fodd bynnag, bydd y rôl hwn yn benodol yn cael ei weithredu mewn modd a gydlynir yn ofalus gyda staff ac uwch swyddogion eraill y Brifysgol.

## 6. Rhinweddau Personol

6.1 Bydd gan yr aelodau ymroddiad personol cryf i Addysg Uwch ac i werthoedd, nodau ac amcanion y Brifysgol.

6.2 Bydd yr aelodau yn gweithredu'n deg ac yn ddiduedd bob amser er budd y Brifysgol yn gyffredinol, gan ddefnyddio barn annibynnol a chynnal cyfrinachedd ble y bo'n briodol.

6.3 Disgwylir i'r aelodau fynychu pob un o gyfarfodydd y Corff Llywodraethu a phwyllgorau y maent yn aelodau ohonynt, neu roi ymddiheuriadau prydlon pan na allant fod yn bresennol. Trefnir dyddiadau cyfarfodydd o leiaf chwe mis o flaen llaw fel arfer.

6.4 Disgwylir i'r aelodau ddarllen papurau agenda o flaen llaw, holi cwestiynau priodol mewn cyfarfodydd a chymryd rhan mewn trafodaethau er mwyn sicrhau eu hunain fod materion yn cael eu rheoli'n briodol gan y Brifysgol.

6.5 Mae'n rhaid i'r aelodau gymryd rhan mewn gweithdrefnau a sefydlwyd gan y Bwrdd Llywodraethwyr er mwyn gwerthuso/adolygu perfformiad aelodau unigol yn rheolaidd. Dylai'r aelodau fynychu unrhyw weithgareddau cynefino a drefnir gan y Brifysgol a chymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddi priodol megis y rheiny a drefnir gan gyrff allanol y bydd y Clerc yn tynnu eu sylw atynt.

6.6 Nid yw aelodau'r Bwrdd Llywodraethwyr yn derbyn tâl ond fe'u hanogir i hawlio eu holl dreuliau teithio a chyffelyb wrth ymgymryd â busnes y Brifysgol, trwy'r Clerc. Mae Yswiriant Atebolrwydd Cyfarwyddwyr a Swyddogion mewn grym.

6.7 Bydd y dyddiad dechrau ffurfiol a chyfnod y penodiad, ynghyd ag unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill, yn cael eu nodi mewn llythyr penodiad.

6.8 Yr ymrwymiad amser tebygol gan aelodau yw 30 - 50 awr y flwyddyn a fyddai'n cynnwys pum cyfarfod y Bwrdd, rhwng dau a phump cyfarfod Pwyllgor, diwrnod strategaeth a nifer o gyfarfodydd neu ddigwyddiadau ychwanegol lle gallai fod yn ofynnol i lywodraethwyr fod yn bresennol e.e. seremonïau graddio'r Brifysgol, agoriadau swyddogol, cyfarfodydd Bwrdd arbennig, sesiynau cynefino a sesiynau datblygu.

# Rhagor o wybodaeth

**Gellir canfod rhagor o wybodaeth am y Bwrdd Llywodraethwyr a'r Brifysgol yn gyffredinol trwy'r dolenni isod:**

Llywodraethu'r Brifysgol a'r Bwrdd

Cod Ymddygiad i Lywodraethwyr

Datganiad Prif Gyfrifoldebau'r Bwrdd

Datganiad Preifatrwydd y Bwrdd Llywodraethwyr

Uwch Dîm Rheoli'r Brifysgol

Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol hyd at 31 Gorffennaf 2023

## Beth mae llywodraethwyr presennol yn ei ddweud am eu profiad?

*Cefais fy mhenodi'n Llywodraethwr Annibynnol ym mis Gorffennaf 2021 a gallaf argymell y profiad yn galonogol. Mae'r rôl yn heriol ac yn eang ei chwmpas ond hefyd yn rhoi llawer o foddhad a chyffrous. Mae ethos a gwerthoedd Prifysgol Wrecsam yn disgleirio ar bob lefel ac mae'n fraint wirioneddol cael bod yn rhan o'r tîm. Rwyf wedi teimlo fy mod wedi paratoi'n dda iawn ar gyfer y rôl, drwy'r broses recriwtio a'r hyfforddiant sefydlu, ond mae'r gefnogaeth a'r anogaeth barhaus hefyd yn rhagorol." - Diane McCarthy, Llywodraethwr Annibynnol*

*"Mae fy ngwaith ar Fwrdd y Llywodraethwyr yn ysgogol ac yn heriol. Rwy'n mwynhau gweithio gyda chymaint o bobl o gefndiroedd amrywiol ac yn teimlo fy mod bob amser yn gallu gwneud gwahaniaeth cadarnhaol." - David Subacchi, Llywodraethwr Annibynnol*

*"Mae bod ar fwrdd Prifysgol Wrecsam wedi bod yn amser gwych i mi. Hyd yn hyn, mae wedi fy ngalluogi i ddysgu'n aruthrol gan aelodau eraill y bwrdd ond ar yr un pryd yn cyfrannu'n rhwydd at drafodaethau ac yna i fynd allan i fwynhau gweld y pethau gwych y mae ein staff a'n myfyrwyr yn eu profi." - Martin Chambers, Llywodraethwr Annibynnol*

## Sut i ymgeisio

Os ydych chi'n dymuno ymgeisio i fod yn aelod o'r Bwrdd Llywodraetthwyr, neu os oes gennych chi ddiddordeb mewn bod yn aelod cyfetholedig un o'r pwyllgorau, cyflwynwch eich CV a llythyr esboniadol yn nodi eich rhesymau am fod â diddordeb mewn bod yn aelod o Fwrdd y Brifysgol neu bwyllgor, wedi'i gyfeirio at Glerc y Bwrdd Llywodraethwyr. Y dyddiad cau yw **dydd Mercher, 13 Mai 2024,** Maer broses ddethol yn cael ei goruchwylio gan Bwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu'r Bwrdd a bydd yn cynnwys cyfweliad gydag hyd at bedwar llywodraethwr.

## Amserlen recriwtio

Cyfweliadau: **Mai/Mehefin 2024**

Bydd costau teithio'n gysylltiedig á'r broses gyfweld yn cael eu had-dalu.

Os hoffech chi gael sgwrs anffurfiol am rôl llywodraethwr, mae croeso i chi gysylltu â'r Clerc trwy neges e-bost yn y lle cyntaf i drefnu amser am sgwrs ffôn.

David Clarke, Clerc y Bwrdd Llywodraethwyr, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, Plas Coch, Ffordd yr Wyddgrug, Wrecsam, LL11 2AW.

E-bost: **david.clarke@wrexham.ac.uk**


Prifysgol Wrecsam
Wrexham University
Wrexham University
Welcome

Prifysgol **Wrecsam**
**Wrexham** University